

**Y Pwyllgor Iechyd a  
Gofal Cymdeithasol**

**Health and Social Care  
Committee**

**Senedd Cymru**

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN  
Seneddlechyd@senedd.cymru  
senedd.cymru/Seneddlechyd  
0300 200 6565

**Welsh Parliament**

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN  
SeneddHealth@senedd.wales  
senedd.wales/SeneddHealth  
0300 200 6565

Jack Sargeant AS  
Cadeirydd  
y Pwyllgor Deisebau

16 Mai 2022

Annwyl Jack

Deiseb P-06-1241 Llywodraeth Cymru i gwrdd â chynulleidfa ehangach o ofalwyr di-dâl.

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 2 Mawrth 2022 ynghylch y ddeiseb uchod, lle gwnaethoch ofyn i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a fydd unrhyw gyfle yn y dyfodol i'r deisebydd gymryd rhan mewn unrhyw ymchwiliadau neu sesiynau casglu tystiolaeth ar y mater hwn.

Fel aelod o'r Pwyllgor hwn, byddwch wrth gwrs yn ymwybodol bod cymorth a gwasanaethau i ofalwyr di-dâl yn un o'r meysydd blaenoriaeth a nodwyd yn ein strategaeth ar gyfer y Chweched Senedd.

Lle bo'n berthnasol, rydym drwy ein holl waith yn ystyried materion sy'n ymwneud â gofalwyr di-dâl, ac yn mabwysiadu amrywiaeth o ffyrdd o glywed gan ofalwyr unigol yn uniongyrchol, yn ogystal â chan sefydliadau cynrychioliadol perthnasol. Rwyf wedi nodi rhai enghreifftiau isod.

Ymchwiliad i ryddhau cleifion o ysbytai ac effaith hynny ar y llif cleifion drwy ysbytai

---

Ddydd Iau 10 Mawrth, cawsom dystiolaeth lafar ffurfiol gan ofalwr di-dâl â phrofiad uniongyrchol o oedi wrth drosglwyddo gofal, ynghyd â chynrychiolydd o Gymdeithas Alzheimer Cymru. Roedd clywed yn uniongyrchol gan unigolyn â phrofiad personol o gymorth i ddangos yn glir iawn y problemau a'r effaith ar ofalwyr unigol a theuluoedd.

Ymchwiliad i effaith yr ôl-groniad o ran amseroedd aros ar bobl yng Nghymru sy'n aros am ddiagnosis neu driniaeth.

---

Fe wnaethom ni gynnal cyfweiliadau manwl â phobl y mae'r ôl-groniad o ran amseroedd aros yn effeithio arnynt, gan gynnwys rhai gofalwyr di-dâl. Mae canfyddiadau'r cyfweiliadau ar gael ar wefan.y



**Pwyllgor.** Fe wnaethom ni hefyd gymryd tystiolaeth lafar ffurfiol gan Gynghair Cynhalwyr Cymru ar ddydd Iau 2 Rhagfyr. Wedi hynny, fe wnaethom ni gynnwys pennod ar ofalwyr di-dâl yn ein hadroddiad, gan amlygu'r rôl hanfodol y maent yn ei chwarae yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol a gwneud argymhellion yn ynghylch cefnogi gwydnwch ariannol gofalwyr a hyrwyddo eu rhan yn y gwaith o gynllunio gofal a thriniaeth.

Ymchwiliad i anghydraddoldebau iechyd meddwl


---

Er mwyn llywio cyfnod cyntaf ein hymchwiliad i anghydraddoldebau iechyd meddwl, fe wnaethom ni gynnal cyfres o grwpiau ffocws, gan gynnwys un gyda gofalwyr ifanc yng Nghasnewydd. Mae crynodeb o'r grwpiau ffocws ar gael ar wefan y Pwyllgor. Rydym hefyd wedi cael tystiolaeth ysgrifenedig gan sefydliadau gofalwyr a chan nifer o unigolion sy'n ofalwyr. Byddwn yn cynnal digwyddiad anffurfiol i drafod â rhanddeiliaid ym mis Mehefin, gan ganolbwyntio ar anghydraddoldebau iechyd meddwl a niwroamrywiaeth, a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr sydd â phrofiad o fyw fel gofalwyr neu aelodau teulu pobl sydd â chyflyrau niwroamrywiol.

Os bydd y deisebydd yn dymuno cyfrannu at unrhyw ddarnau o waith y bydd y Pwyllgor yn eu gwneud yn y dyfodol, bydd rhagor o fanylion ar gael ar wefan y Pwyllgor ac yn cael eu hyrwyddo ar draws cyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Senedd. Os hoffai'r deisebydd fod ar ein rhestr bostio, gall ofyn am hyn drwy e-bostio [seneddiechyd@senedd.cymru](mailto:seneddiechyd@senedd.cymru).

Rydym yn gobeithio y bydd y wybodaeth hon o gymorth i'r deisebydd, ac yn edrych ymlaen at barhau i drafod y pwnc pwysig hwn lle y bo'n briodol yng ngwaith y Pwyllgor drwy gydol y Senedd hon.

Yn gywir



Russell George AS

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.